

## CYFARFOD Y CYNGOR 10 EBRILL 2019

### DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN EITEM 8(B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cynghorwyr P. Jarman, G. Davies, S. Rees-Owen, M. Weaver, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, L. Jones, E. Stephen, H. Fychan, D. Grehan, K. Morgan, E. Webster, D. Macey, A. Chapman ac S. M. Evans i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu yn eitem 8(B) o agenda'r Cyngor sy'n sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Adams ac R. Yeo:

Mae'r Cyngor yn awyddus i fynegi ei bryder ynglŷn â'r effaith ymarferol y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r trefniadau newydd yng Nghwm Taf er mwyn ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm â'r drefn yma ar gyfer ein trigolion.

*(YCHWANEGU – Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, i ystyried pryderon y Cyngor yma wrth ystyried canfyddiadau adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd sydd i fod yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn fuan.)*

Yn rhan o'r adolygiad yma, gofynnwn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried y datblygiad sylweddol o ran tai sydd eisoes wedi digwydd ers i'r penderfyniad yma gael ei wneud yn 2013. Yn ogystal â hynny, dylai'r adolygiad ystyried cynigion am godi tai yn y dyfodol, yn arbennig yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r gogledd ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y datblygiadau yma'n rhoi rhagor o bwysau ar y drefn newydd yma ac, o ganlyniad i hynny, yn arwain at ragor o broblemau ymarferol i drigolion Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth gan wasanaethau mamolaeth a phediatrig, yn arbennig mewn argyfwng.

*(YCHWANEGU – O ganlyniad, mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y goblygiadau ar gyfer lles y cymunedau y mae hyn yn effeithio arnyn nhw. Ni fyddai wedi bod modd mesur canlyniadau'r newidiadau pan gafodd y penderfyniad gwreiddiol ar gyfer y gwasanaeth yma ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar y pryd, chwe blynedd cyn rhoi trefniadau'r gwasanaeth newydd ar waith.)*

#### **Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Mae'r Cyngor yn awyddus i fynegi ei bryder ynglŷn â'r effaith ymarferol y mae'r newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r trefniadau newydd yng Nghwm Taf er mwyn ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm â'r drefn yma ar gyfer ein trigolion.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, i ystyried pryderon y Cyngor yma wrth ystyried canfyddiadau adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd sydd i fod yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn fuan.

Yn rhan o'r adolygiad yma, gofynnwn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried y datblygiad sylweddol o ran tai sydd eisoes wedi digwydd ers i'r penderfyniad yma gael ei wneud yn 2013. Yn ogystal â hynny, dylai'r adolygiad ystyried cynigion am godi tai yn y dyfodol, yn arbennig yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â'r gogledd ac ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y datblygiadau yma'n rhoi rhagor o bwysau ar y drefn newydd yma ac, o ganlyniad i hynny, yn arwain at ragor o broblemau ymarferol i drigolion Rhondda Cynon Taf sydd angen cymorth gan wasanaethau mamolaeth a phediatrig, yn arbennig mewn argyfwng.

O ganlyniad, mae'r Cyngor yma hefyd yn galw ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y goblygiadau ar gyfer lles y cymunedau y mae hyn yn effeithio arnyn nhw. Ni fyddai wedi bod modd mesur canlyniadau'r newidiadau pan gafodd y penderfyniad gwreiddiol ar gyfer y gwasanaeth yma ei wneud gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar y pryd, chwe blynedd cyn rhoi trefniadau'r gwasanaeth newydd ar waith.

\*\*\*